CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES WELSH FOR ADULTS CENTRE

PANEL ANSAWDD

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Panel ddydd Mercher, 14 Mai 2008 am 11.00yb yng Nghanolfan Dyfodol@Treffynnon, Treffynnon.

Presennol: Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Ifan Prys (Nant Gwrtheyrn); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Howard Edwards (Popeth Cymraeg); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Elwyn Hughes (Prifysgol Bangor); Julie Brake (NEWI); Sharon Owen (Coleg Menai); Liam Kealy (Arolygwr Estyn); Ann Jones (Arolygwr Estyn); Gwenan Owain (Cadeirydd, Coleg Llysfasi); Caroline Williams (Coleg Meirion Dwyfor); Iwan Davies (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: James Nelson (Coleg Llandrillo Cymru); Diane Martin (Coleg Glannau Dyfrdwy); Dr Ioan Ap Dewi (Prifysgol Bangor); Jeni Harris (Coleg Iâl)

		Gweithredu
1.	**CROESO AC YMDDIHEURIADAU**	
	Croesawodd Gwenan Owain, Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac yn enwedig Liam Kealy ac Ann Jones, arolygwyr Estyn.	
2.	**CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 MAWRTH 2008**	
	Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2008 yn gywir.	
3.	**MATERION YN CODI**	
	Mynegodd HH fod y cynllun dysgu unigol bellach wedi cael ei weithredu.	
4.	**ADRODDIAD HUNAN ASESU**	
	Mae'r adroddiad Hunan Asesu cyntaf wedi ei baratoi ar gyfer y rhanbarth, ac mae adroddiad arwahan ar gyfer Sir y Fflint gyda'r ***bwriad o gael sêl bendith gan Gadeirydd y Panel Ansawdd, James Nelson, Coleg Llandrillo Cymru a Sharon***	**HH**

Owen, Coleg Menai cyn ei gyflwyno i APADGOS.
Diolchwyd i bob darparwr am eu sylwadau a'i hadborth. Unwaith bydd y Ganolfan wedi derbyn sylwadau gan APADGOS byddwn yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Cafwyd ymateb a mewnbwn gan y tiwtoriaid yn y gynhadledd hyfforddi, Llangollen, bydd hefyd angen barn y dysgwyr, ***bydd y Ganolfan yn ymgynghori efo'r darparwyr ynglŷn a chreu Grwpiau Ffocws.*** **HH**

5. ARSYLWADAU DOSBARTH

Bellach mae arsylwadau Sir y Fflint, NEWI, Coleg Iâl a Choleg Llysfasi wedi eu cwblhau. Cafwyd darlun eithaf clir o'r tiwtora yn y rhanbarth. Derbyniodd pob tiwtor sesiynau hyfforddiant cyn yr arsylwadau. Dengys o'r arsylwadau bod angen hyfforddiant penodol ar nifer o'r tiwtoriaid. Mae'r Ganolfan yn paratoi rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid y rhanbarth. Mynegodd GO bod adroddiadau yr arsylwadau yn rhai trylwyr. Mae enwau Non Lewis Edwards, Coleg Glannau Dyfrdwy, Eleri Swift Jones, Prifysgol Bangor, Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg a Gwenan Owain, Coleg Llysfasi wedi cael eu rhoi ymlaen ar gyfer derbyn hyfforddiant arolygwyr Estyn. Mae canfyddiadau arferion da'r tîm arsylwi yn cael eu rhannu rhwng y tiwtoriaid. Bydd rhaid arsylwi holl diwtoriaid y rhanbarth yn 2008/09, bydd tiwtoriaid Gwynedd ac Ynys Môn yn cael eu harsylwi yn nhymor yr Hydref 2008, Conwy a Dinbych, Ionawr a Chwefror 2009, Wrecsam a Sir y Fflint, Mawrth ac Ebrill 2009.

6. ADRODDIADAU ESTYN

Canolbwyntiwyd HH ar adroddiad Caerdydd a'r Fro a rhannwyd nifer o bwyntiau defnyddiol i'r darparwyr megis rhannu adnoddau a lleoliadau. Nid yw adroddiad Canolfan y Canolbarth wedi ei gyhoeddi, ***bydd HH yn cylchredeg yr adroddiad o amgylch y darparwyr.*** Mynegwyd ei fod yn holl bwysig rhannu'r wybodaeth am arferion da ar diffygion, bydd HH hefyd yn rhannu'r wybodaeth efo tiwtoriaid y rhanbarth***.*** Bydd angen targedu hyfforddiant sydd wedi cael ei fanylu gan diwtoriaid. **HH**

7. AROLWG SIR Y FFLINT

Fel y gwŷr pawb rydym yng nghanol arolwg Sir y Fflint, mynegodd HH bod Elwyn Hughes, Prifysgol Bangor a Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg wedi cyflwyno ffeiliau trylwyr iawn i Estyn. Cafwyd sylwadau gan y ddau arolygwr yn cadarnhau bod nodweddion cadarnhaol wedi eu gweld hyd yma yn yr arolwg ac fe gawn adroddiad llawn o fewn yr wythnos.

8. RHAGLEN ARSYLWI 2008/09

Wedi ei drafod ynghynt yn yr agenda.

9. PAPUR TRAFOD FFRAMWAITH APADGOS

Bydd y Ganolfan yn barod i dderbyn sylwadau ar y papur trafod ac yna yn pasio'r wybodaeth ymlaen at APADGOS, y gobaith yw cawn adroddiad erbyn y cyfarfod nesaf o'r prif ganfyddiadau. **Darparwyr**

10. CYNLLUN DYSGU UNIGOL

Mae'r cynllun dysgu unigol wedi cael ei lunio ar ffurf Coleg Harlech WEA, bydd rhaid edrych a chytuno ar gynllun a fydd i'w ddefnyddio erbyn Medi 2008, ***bydd gweithgor yn cynnwys Jina Gwyrfai, Canolfan Cymraeg i Oedolion, Elwyn Hughes, Prifysgol Bangor, Sharon Owen, Coleg Menai a Gwenan Owain, Coleg Llysfasi yn cyfarfod i drafod cynllun dysgu unigol a'i wneud yn syml i'w ddeall.*** **HH**

11. U.F.A.

Cafwyd adroddiad gan IG ar ddangosyddion perfformiad, mynegwyd bod diffyg sylweddol mewn meincnodau yn y maes, yn sicr byddwn yn gallu gweld dilyniant y flwyddyn nesaf. Mae'r dangosyddion ar lefel Canolfan ond fe allwn ei wneud ar lefel darparwyr os bydd angen.
Mynegodd HH bod cais gan Ganolfan y Canolbarth i gael llawlyfr tiwtor cyffredin, y gobaith yw cael ffeil enghreifftiol o ddefnydd i'r darparwyr, bydd angen sylwadau gan y darparwyr ac yna bydd yn cael ei gyfeirio at Grŵp y Gamfa.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher, 15fed Hydref 2008 am 10.30yb, Ystafell Rhos, Coleg Llandrillo Cymru, Llandrillo yn Rhos.